CYFRES C4

# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4



Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

## Astudiaeth 1 Yr Arglwydd Iesu – Ei Brofi a'i Groeshoelio



DARLLENWCH
Luc 23: 1-33



ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 5: 8



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Mathew 5: 43-48 Marc 15: 6-15 Ioan 18: 39-40

Roedd Pilat yn Rhaglaw ar ranbarth Jwda. Bu'n rhaid i elynion yr Arglwydd Iesu berswadio Pilat fod Iesu'n haeddu marw.



**C Ysgrifennwch DDAU o'r cyhuddiadau a ddygwyd yn erbyn Iesu.** 2

1
2

Heddiw, mae pobl yn dal i ddweud celwydd am eraill oherwydd eu bod yn dymuno gwneud niwed iddynt. Brodor o Galilea oedd Iesu, felly anfonodd Pilat Ef at Herod, llywodraethwr yr ardal honno. Fel Pilat, gwyddai Herod nad oedd Iesu yn euog o unrhyw gyhuddiad o drosedd a ddygwyd yn Ei erbyn. Roedd y Brenin Herod am i Iesu gyflawni gwyrth i'w ddifyrru, ond gwrthododd Iesu siarad ag ef hyd yn oed!

**C Sut driniaeth gafodd Iesu gan Herod a'i ddynion?** 2

Ar y pryd, roedd gan Pilat garcharor arall.

**C Beth oedd ei enw?** 1

**C Roedd hwn yn y carchar am iddo gyflawni pa droseddau?** 2

1 2

Cawsai cenedl yr Iddewon ei choncro gan y Rhufeiniaid ac roedd y bobl hyn yn atgas gan yr Iddewon. Mae'n bur debyg bod y dyn hwn wedi lladd Rhufeiniwr a byddai nifer o'r Iddewon yn ymhyfrydu yn hynny.

Er bod Herod a Pilat yn gwybod fod Iesu'n ddieuog, roedd Pilat yn ofni Ei ryddhau. Gofynnodd i'r bobl yn hytrach ddewis p'un ddylai ei ryddhau – Iesu neu Barabbas.

**C** **Pan oedd y bobl yn gweiddi o blaid Barabbas, beth oedden nhw'n ei ddewis? Tanlinellwch yr atebion cywir.** 2

Heddwch   Trais   Cariad   Casineb   Llawenydd

**Oherwydd y dewis hwn:-**

**C** **Beth ddigwyddodd i Barabbas?** 2

**C** **Beth ddigwyddodd i Iesu?**

Roedd gelynion yr Arglwydd Iesu yn falch o'i weld yn cael Ei groeshoelio.

**C** **Pwy oedd yn anhapus pan ddigwyddodd hyn?** 1

Nid Iesu'n unig gafodd Ei groeshoelio.

**C** **Pwy arall gafodd eu lladd gydag Ef?** 1

Y diwrnod hwnnw, gwelodd y bobl Barabbas - dyn euog - yn mynd yn rhydd. Cafodd Iesu - Dyn dieuog - Ei groeshoelio. Roedd Iesu, nid yn unig yn ddieuog o'r troseddau yr honnai Ei elynion Iddo eu cyflawni, ond Ef hefyd oedd yr unig Berson nad oedd erioed wedi pechu yn erbyn Duw. Ar y groes, bu farw Iesu dros Ei elynion, a hefyd dros bob un ohonom ni, er mwyn i ni gael bywyd tragwyddol.



**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a rhowch gylch o gwmpas y gair sy'n disgrifio Barabbas yn ogystal â ni ein hunain.** 2

# CROESAIR

Ar Draws
1. Bu farw Iesu er mwyn i ni gael hwn yn dragwyddol.
2. Cyhuddwyd Barabbas o gyflawni'r drosedd hon.

I Lawr
3. Bu farw Crist drosom pan oeddem yn dal yn ..............
(Gweler yr Adnod Allweddol
4. Dywedodd Iesu y dylem garu'r bobl hyn (gweler Mathew 5:44).
5. Gwyddai Pilat fod Iesu yn .......




5

Nid yw'r Beibl yn dweud wrthym sut roedd Barabbas yn teimlo pan welodd yr Arglwydd Iesu yn cael Ei arwain i farw yn ei le nac ychwaith a fu iddo newid ei ffordd o fyw. Er hynny, rydym yn gwybod i'r Arglwydd Iesu farw dros ein pechodau. Felly, rhaid i ni droi cefn ar ein pechodau a chyflwyno ein bywydau i'w ofal Ef. Ydych chi erioed wedi ymddiried eich bywyd Iddo Ef? Os ydych, ysgrifennwch atom i ddweud!

cyfanswm

Enw



DARLLENWCH
Luc 23: 44-56
24: 1-12



ADNOD ALLWEDDOL
2 Timotheus 2:8

# Astudiaeth 2 Yr Arglwydd Iesu – Ei Gladdu a'i Atgyfodi!



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Mathew 27: 57-61 Marc 16: 1-7 Ioan 19: 38-42

Yn dilyn marwolaeth yr Arglwydd Iesu, cawn ein cyflwyno i ddyn nad ydym wedi clywed dim amdano cyn hyn. Dywed Ioan 19:38 wrthym ei fod yn un o ddilynwyr dirgel Iesu.

**C Pwy oedd e?** 1

**C Pam fod y gŵr hwn yn un o ddilynwyr dirgel Iesu? (Gweler Ioan 19:38)** 1

**C Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR gyferbyn â'r datganiadau hyn i ddarganfod mwy amdano:-** 3

Roedd yn byw yn Antioch. ...................
Roedd yn ddyn cyfiawn a da. ...................
Roedd yn disgwyl am Deyrnas Dduw. ...................
Roedd yn saer. ...................
Gofynnodd i Herod am y corff. ...................
Lapiodd y corff mewn lliain. ...................



Nid nepell o'r fan lle y croeshoeliwyd yr Arglwydd Iesu, roedd gan Joseff fedd (feddrod). Ogof oedd y bedd hwn, ac ynddo gosododd Joseff gorff yr Arglwydd Iesu.

**C Pwy oedd yn gwylio Joseff wrth y bedd ac a aeth ati wedyn i baratoi peraroglau ac eneiniau?** 1

Dyma'r unig ffordd bellach y gallai ffrindiau Iesu ddangos eu cariad tuag Ato.

**C Sut aeth y gwragedd ati i barhau i ddangos yr union gariad hwnnw yn gynnar ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos?** 1

Roedd y gwragedd hyn yn poeni oherwydd wydden nhw ddim sut i symud y garreg oedd wrth geg yr ogof.



**C Sut oedden nhw'n teimlo pan welsant nad oedd Ei gorff yn y bedd?** 1

**C Beth oedd eu hymateb pan welsant y ddau ddyn?** 1

Roedd gan y ddau ddyn, oedd yn angylion mewn gwirionedd, neges ryfeddol i'r gwragedd.

**C Pam na ddylent fod wedi chwilio am Iesu yn y bedd?** 1

**C** **Pa dri pheth ddywedodd Iesu, cyn hyn, wrth Ei ddilynwyr fyddai'n digwydd Iddo?** 3

1
2
3

**C** **Ar ôl clywed fod yr Arglwydd Iesu wedi codi o'r bedd, at bwy aeth y gwragedd?** 1

Ni chadwodd y gwragedd y newyddion da iddynt eu hunain. Dylem ninnau hefyd ddweud y newyddion da am yr Arglwydd Iesu wrth ein ffrindiau. Doedd y disgyblion, er hynny, ddim yn gorfoleddu fel y gwragedd.

**C** **Pam felly?** 1

Mae llawer o bobl heddiw yn gwrthod credu'r newyddion da fod yr Arglwydd Iesu wedi marw ac yna wedi atgyfodi.

**C** **Beth wnaeth Pedr?** 1

**C** **Beth oedd ei ymateb wrth iddo adael y bedd?** 1

Wedi marwolaeth Iesu, gwnaeth Joseff a'r gwragedd yr hyn a allent i ddangos eu cariad tuag Ato. Llanwyd y gwragedd â llawenydd wedi iddyn nhw glywed a chredu'r newyddion da a gyhoeddodd yr angylion. Cawn ninnau hefyd brofi llawenydd os credwn i'r Arglwydd Iesu farw drosom ac Iddo godi o'r bedd yn fyw.



**C** **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol a chofiwch ei bod yn wir!** 2

**C** **Gan ddechrau gyda'r llythyren sydd â chylch o'i chwmpas, chwiliwch am bedwar gair sy'n gysylltiedig â'r stori.** 1

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| (M) | E | N | G | W | A |
| I | Dd | Y | N | Ll | G |
| S | T | R | E | W | A |
| Ll | M | I | D | O | F |
| H | Y | A | T | G | Y |

M

A

G

Ll

**cyfanswm**

Enw

# Astudiaeth 3 Yr Arglwydd Iesu – Ei Weld a'i Glywed



DARLLENWCH
Luc 24: 13-35



ADNOD ALLWEDDOL
Luc 24: 26



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Actau 1: 1-3 Actau 3: 11-19 Actau 10: 39-43

Sul y Pasg cyntaf yw'r enw ar y diwrnod pan atgyfododd Iesu o'r bedd. Roedd yn ddiwrnod cyffrous! Mae'r Darlleniad o'r Beibl yn sôn am un o'r pethau ddigwyddodd ar y diwrnod hwnnw.

## CROESAIR

AR DRAWS
1. Gadawodd y ddau ddyn y ddinas hon.
4. Enw un o'r teithwyr.
6. Esboniodd Iesu ysgrifeniadau'r dyn hwn.
7. Bu'n rhaid i'r Arglwydd wneud hyn cyn mynd i'r gogoniant.

I LAWR
2 Ymunodd y Person hwn â'r teithwyr.
3. Roeddent yn mynd i'r dref hon.
5. Ymddangosodd yr Arglwydd atgyfodedig i Seimon _ _ _ _ hefyd.
8. Credai'r bobl mai _ _ _ _ — _ _ _ oedd Iesu.




8

Yn yr astudiaeth flaenorol, gwelsom fod y gwragedd, ar ôl iddynt glywed neges yr angylion, wedi credu fod yr Arglwydd Iesu yn fyw. Cyfarfu Cleopas a'i gyfaill gyda'r Crist atgyfodedig Ei hun, ond doedden nhw ddim hyd yn oed yn Ei adnabod i gychwyn.

**C O ddarllen adnod 17, sut oedd y ddau ddyn hyn yn teimlo, dybiwch chi?** 1

**C Ysgrifennwch frawddeg i gyfleu'r hyn ddywedodd Cleopas mewn ateb i gwestiwn Iesu yn adnod 17.** 1

Wrth iddynt siarad â'r 'Dieithryn' hwn am y digwyddiadau yn Jerwsalem, dyma nhw'n sôn Wrtho am eu gobeithion y byddai Iesu o Nasareth yn gwared eu gwlad o'i gelynion.

**C Ym mha adnod roedden nhw'n sôn am y gobaith hwn?** 1

**C Beth oedd wedi digwydd i chwalu gobeithion Cleopas a'i gyfaill?** 1

Weithiau ni chaiff hyd yn oed ein gobeithion eu gwireddu!

Roedd y ddau hyn ymhlith dilynwyr Iesu a glywodd gan y gwragedd fod Iesu wedi atgyfodi o'r bedd yn fyw.

**C Beth oedd ymateb Cleopas a'i ffrind i'r newydd hwnnw?** 1

Wrth iddynt gyd-gerdded, aeth yr Arglwydd Iesu ati i esbonio wrthynt a'u cynorthwyo i ddeall pam y bu'n rhaid Iddo ddioddef a marw.

**C Defnyddiwch y geiriau hyn i lanw'r bylchau yn y brawddegau canlynol.** 5

proffwydi    Moses    gogoniant    gredu    Grist

Roeddent yn araf i ............ .

Roedd rhaid i ............. ddioddef cyn Iddo fynd i mewn i'w ogoniant.

Defnyddiodd Iesu ysgrifeniadau .............. a'r ............. i'w dysgu amdano'i Hun.



Roedd Cleopas a'i gyfaill yn awyddus i'r 'Dieithryn' aros yn fel gwestai eu cartref.

**C Pan oedd Ef yn eu cartref, beth wnaeth Iesu i beri bod Cleopas a'i gyfaill yn Ei adnabod?** 1

Yn ôl yr arfer, y gwesteiwr, sef pennaeth y teulu, fyddai'n torri'r bara. Pan fydd yr Arglwydd Iesu'n dod i mewn i fywyd unigolyn, rhaid Iddo ddod i mewn bob tro fel yr Uwch-reolwr. Nawr, gan eu bod yn gwybod pwy oedd y 'Dieithryn' mewn gwirionedd, roedd eu calonnau ar dân gan lawenydd.

1

**C Beth wnaethon nhw ar unwaith er mwyn rhannu eu llawenydd ag eraill?**

Cerddodd y ddau un cilomedr ar ddeg (tua saith milltir) wedi iddi nosi er mwyn rhannu'r newyddion da am atgyfodiad Iesu gyda'u ffrindiau. Dilynwch eu hesiampl a rhannwch chithau yr hyn wyddoch chi am yr Arglwydd Iesu gyda'ch ffrindiau.





Enw



DARLLENWCH
Ioan 20: 19-31



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 20: 29

# Astudiaeth 4 Yr Arglwydd Iesu – Ei Amau a'i Gredu



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Ioan 11: 5-16 | 1 Corinthiaid 15: 3-7 | 1 Ioan 5: 10-13



**C Cyfarfu'r disgyblion y tu ôl i ddrysau wedi eu cloi ar y diwrnod pan atgyfododd yr Arglwydd Iesu o'r bedd. Pam?** 1

**C Beth oedd y geiriau cyntaf lefarodd yr Arglwydd Iesu wrthynt?** 1

**C Beth oedd eu hymateb pan welsant Ef?** 1

Doedd un disgybl, o'r enw Thomas, ddim yno i rannu'r profiad hwn.

**C Dro arall, cyn hyn, pan oedd Thomas o'r farn fod Iesu'n mynd ar Ei ben i berygl, beth oedd ei awgrym wrth ei gyd-ddisgyblion? (Ioan 11:16)** 1

**C Ond pan arestiwyd Iesu, beth wnaeth Thomas, fel gweddill y disgyblion, mewn gwirionedd? (Marc 14:50)** 1

**C Gan nad oedd gyda'r disgyblion eraill, beth gollodd Thomas ar nos Sul y Pasg cyntaf?** 1

Roedd y disgyblion eraill yn awyddus i rannu eu newyddion da gyda Thomas.

**C Rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cliwiau canlynol yn y Chwilair i ganfod ymateb Thomas. Maent wedi eu cuddio i fyny, i lawr, yn ôl a blaen. Mae rhif 7 wedi ei wneud drosoch.**

1. Roedd Thomas yn un o'r rhain.
2. Pwy welodd ei ffrindiau? Yr ...........
3. Roedd Thomas eisiau gweld y creithiau yn rhain.
4. Dyma achosodd y creithiau.
5. Roedd Thomas eisiau gosod hwn yn y creithiau.
6. Roedd e eisiau gosod ei law yn ....... Iesu.
7. Gelwir ef yn aml yn .........'yr anghredadun'

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | R | G | L | W | Y | Dd | E | S |
| O | L | B | Y | G | S | I | D | H |
| L | R | I | S | O | T | R | B | Ch |
| Y | D | N | O | I | L | E | O | H |
| W | I | Ch | W | B | Y | S | E | E |
| D | Th | O | M | A | S | U | Ll | Ph |

**C Ad-drefnwch y llythrennau canlynol i ganfod beth arall ddywedodd Thomas. IN AChDRFE** 7

Roedd hyn, i Thomas, mor rhyfeddol fel na allai fod yn wir! Gwrthododd gredu. Ond roedd Thomas ar fin cael andros o sioc!



**C** **Ym mha ffordd y gwelodd Thomas rym yr Arglwydd Iesu pan ddaeth Ef i mewn i'r ystafell yr wythnos wedyn? (adnod 26)**

2

Dywedodd Thomas ei fod eisiau cyffwrdd ag Iesu, a gwahoddodd yr Arglwydd Iesu ef i wneud hynny. Ond ni chawn wybod yma ai dyna wnaeth Thomas mewn gwirionedd.

**C** **Gan ei fod bellach yn gweld fod Iesu wir yn fyw, beth ddywedodd e?**



1

**C** **Darllenwch yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch beth ddywedodd yr Arglwydd Iesu wrth Thomas.**

1

Roedd Thomas yn llawenhau yn y ffaith fod yr Arglwydd Iesu'n fyw. Credai'n wir mai ef oedd Duw a chydnabu Ef fel ei Arglwydd. Os gwnewch chithau'r un peth, cewch eich achub a chewch brofi gwir lawenydd. Darllenwch Rhufeiniaid 10:9.

**C** **Ewch ati i ddatrys y cod i ganfod beth ddysgoch chi am y Pasg cyntaf.**

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | C | Ch | D | Dd | E | F | Ff | G | Ng | H | I | L | B |
| Y | W | U | Th | T | S | Rh | R | Ph | P | O | N | M | Ll | W |

I Y Rh ' F * M Rh Dd C * B Rh T M * Y D P A R Ng T M * Ng 'F * W Rh S.

Dd M Y F Y T Ng S * Y * T Y C * S A H * Y F * A * Ph Ng F S * M * Rh I Y C

3

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 4 C4

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120